



## Ysgol Mynydd-y-Garreg

Mynydd-y-Garreg, Cydweli, Sir Gâr, SA17 4RL

**Pennaeth/Headteacher: Mr A. Barnett**

**Ffôn/Phone: 01554 890523**

admin@mynyddygarreg.ysgolccc.org.uk

pennaeth@mynyddygarreg.ysgolccc.org.uk

[www.mynyddygarreg.amdro.org.uk](http://www.mynyddygarreg.amdro.org.uk)

Annwyl riant/warcheidwad,

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i chi eto am eich holl gefnogaeth dros yr wythnosau diwethaf ers i'r ysgol gau o achos Covid19. Rydych chi wedi cefnogi ni fel ysgol a'ch plant ac rydym yn hynod o ddiolchgar am hyn.

Mae wedi bod yn gyfnod heriol iawn i ni fel ysgol ac rydym wedi bod wrthi'n paratoi nifer o gynlluniau er mwyn ail-agor yr ysgol dros yr wythnosau diwethaf sy'n rhoi diogelwch a lles ein disgyblion a staff yn gyntaf. Rydym nawr yn agosáu at ein cynllun terfynol ac mi fyddwn yn rhannu hyn yn ystod yr wythnos nesaf pan yr ydym yn derbyn bach fwy o wybodaeth oddi wrth yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru. Rydym wir wedi ail-greu ysgol yn yr wythnosau diwethaf sy'n rhoi ystyriaeth benodol i'r canllawiau newydd ar gyfer Covid19.

Isod mae rhai o'r prif bwyntiau byddwn ni'n dilyn pan fyddwn ni'n ail-agor yr ysgol ar gyfer sesiynau 'galw mewn a chadw i fyny' o Ddydd Llun, Mehefin 29ain, 2020, ymlaen:

- Bydd sesiwn 'galw mewn a chadw i fyny' ar gyfer pob disgybl yn yr ysgol yn ystod y pedair wythnos nesaf.
- Mi fydd sesiynau ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 (Blynnyddoedd 3 – 6) yn unig yn ystod y pythefnos gyntaf ac rydym yn anelu at gynnig 3 neu 4 sesiwn iddyn nhw dros y pedair wythnos (un sesiwn pob wythnos).
- Ar ôl y pythefnos cyntaf (13/06/2020), mi fyddwn hefyd yn dechrau sesiynau i'r Cyfnod Sylfaen.
- Pan fydd y disgyblion yn yr ysgol, byddant mewn grwpiau bychain o fewn ystafell ddosbarth penodol (8 disgybl neu lai) a ni fydd pob disgybl o bob blwyddyn ar safle'r ysgol ar yr un diwrnod. Byddant yn aros yn y dosbarth hwn am bob ymweliad i'r ysgol.
- Mi fyddwn yn annog gweithgareddau yn yr awyr agored os mae'r tywydd yn galluogi hyn.
- Mi fydd hy'n ofynnol i ddisgyblion a staff olchi eu dwylo'n rheolaidd yn ystod y dydd ac mi fydd pob disgybl ac aelod o staff yn golchi eu dwylo wrth gyrraedd yr ysgol.
- Mi fydd yna system unffordd yn yr ysgol er mwyn hybu pellter cymdeithasol ac mi fydd gan grwpiau penodol o ddisgyblion mynedfa ac allanfa penodol wrth gyrraedd a gadael yr ysgol.
- Ni fydd disgyblion yn dod ag unrhyw adnoddau mewn i'r ysgol heb law am focs bwyd (os oes angen) a photel. Mi fydd cegin yr ysgol ar gau ond mi fydd yna lefydd i lenwi poteli os oes rhaid.
- Ni fydd rhaid i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol ac rydym yn argymhell disgyblion i wisgo dillad sy'n rhwydd golchi.
- Ni fydd rhaid i'r staff gwisgo PPE ond mi fydd adnoddau ar gael i'r staff os maent yn delio gyda sefyllfaoedd lle nad yw'n bosib cadw pellter cymdeithasol e.e. Cymorth Cyntaf.
- Mi fydd ystafell ynysu ar gael yn yr ysgol os mae disgybl neu aelod o staff yn dangos symptomau Covid19.
- Yn anffodus, ni chaniateir rhieni i mewn i adeilad yr ysgol.
- Gofynnwn yn garedig i bob rhiant cadw at reolau pellter cymdeithasol wrth ollwng a chasglu eu plant a gofynnwn mai dim ond un rhiant sy'n gwneud y ddyletswydd hon.
- Mi fydd yna gyfnodau penodol o 20 munud ar gyfer gollwng a chasglu eich plentyn er mwyn sicrhau ni fydd pawb yn cyrraedd yr ysgol yr un pryd.
- Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn awgrymu ni ddylai ysgol yng Nghymru derbyn mwy na thraean o ddisgyblion ar safle'r ysgol ar un adeg. Er hyn, mae'r Awdurdod Lleol wedi hysbysu ni bod ein safle ysgol yn gallu derbyn llawer yn is na thraean oherwydd cynllun a siâp yr ysgol. Rydym wedi cymryd hyn mewn i ystyriaeth wrth strwythuro'r wythnosau nesaf.

Fel y nodwyd uchod, rydym yn bwriadu rhannu ein cynllun terfynol gyda chi yn ystod yr wythnos nesaf ond rwy'n deall yn iawn mi fydd gan nifer ohonoch chi gonsyrn neu amheuan am adael i'ch plant dychwelyd i'r ysgol ar hyn o bryd. Hoffai nodi yn glir, mi fyddai'n parchu eich penderfyniad beth bynnag yr ydych yn dewis. Rwy'n bennaeth ond rwy'n rhiant hefyd ac rwy'n deall eich pryderon. Mi fydd yr addysgu ar-lein yn parhau pan fydd yr ysgol yn ail agor am y sesiynau uchod felly ni fydd eich plentyn yn colli mas ar addysg. Mi fydd y sesiynau yn yr ysgol yn targedu lles nid addysg ffurfiol.

Edrychaf ymlaen at rannu'r cynllun terfynol gyda chi yn ystod yr wythnos nesaf a diolchaf i chi am eich cefnogaeth.

Cadwch yn ddiogel,

Mr A. Barnett



Carmarthenshire's Healthy School Scheme

